## Cronfa Datblygu Gwaith Craffu Llywodraeth Leol 2008/2009

## 14 Mai 2008

## Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Heddiw rwy'n falch o lansio'r Gronfa Datblygu Gwaith Craffu Llywodraeth Leol. Byddaf yn sicrhau bod £100,000 ar gael i gefnogi'r gwaith o wella ein trefniadau ar gyfer craffu yn lleol ledled Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**Cefndir**

Er i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ddod i rym ym mis Ebrill 2002, amrywiol fu llwyddiant a datblygiad gwaith Trosolwg a Chraffu Awdurdodau Lleol. Er bod tystiolaeth o arfer arloesol, gan gynnwys enghreifftiau o graffu cadarn ac effeithiol, mae angen i rai Awdurdodau Lleol fuddsoddi mwy i gynyddu eu gallu i gynnal gwaith trosolwg a chraffu. Rwy'n sylweddoli bod nifer ohonynt wedi gwneud rhywfaint o gynnydd a'u bod yn awyddus i ddatblygu ar y trefniadau hynny neu i ymchwilio'n fanylach i bwerau craffu ar draws gwasanaethau cyhoeddus yn yr ardal.

Fodd bynnag, ar ôl adroddiad Beecham, ac o ganlyniad i sefydlu'r Byrddau Gwasanaeth Lleol a chasgliad helaeth o bartneriaethau sefydliadol eraill, mae trefniadau craffu cadarn yn bwysicach nag erioed. Bydd pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn dal i graffu ar wasanaethau cynghorau, ond byddaf yn disgwyl iddynt edrych fwyfwy tuag allan, gan gyfarwyddo a herio'r rheini sy'n cyflwyno gwasanaethau i'w dinasyddion lleol. Rhaid iddynt hefyd fynd i'r afael â'u cyfeiriad, gweithredoedd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd eu hunain, yn ogystal â'r gwerth maent yn ei ychwanegu.

**Y Gronfa Datblygu Gwaith Craffu**

Bydd y Gronfa Datblygu Gwaith Craffu hon yn cynnig mwy o gymorth i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy annog trefniadau Trosolwg a Chraffu a atgyfnerthwyd o fewn Awdurdodau Lleol a thrwy ddatblygu gwaith craffu ar y cyd â phartneriaid allweddol ledled y gwasanaethau cyhoeddus. Bydd yn darparu arian cychwynnol ar gyfer y costau sydd ynghlwm wrth ddatblygu trefniadau trosolwg a chraffu cadarn, a fydd yn gallu cyfarwyddo a herio y rheini sy'n gwneud penderfyniadau a llunwyr polisïau ledled y sector cyhoeddus. Bydd gwaith craffu gwell yn arwain at gyflawni'r gwelliannau parhaus mewn gwasanaethau i ddinasyddion y mae'r Llywodraeth yn eu disgwyl.

> Bydd y Gronfa yn helpu prosiectau sy'n ysgogi newidiadau sylweddol i'r diwylliant o graffu mewn Cynghorau lleol, cyrff sector cyhoeddus eraill a phartneriaid, ac ymhlith y cyhoedd. Byddwn yn cyflawni hyn drwy gyflwyno ffyrdd newydd a/neu ffyrdd wedi'u profi'n allanol o weithio yn ogystal â thrwy arloesi. Er mwyn cael defnyddio'r Gronfa, rhaid i brosiectau gynnwys dull partneriaeth strategol gyda Chynghorau eraill neu sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Bydd mwy o bwys yn cael ei roi yn ystod y broses ddethol i'r prosiectau hynny sydd wedi'u gwreiddio mewn cydweithio ac sydd er budd mwy nag un Cyngor.

O heddiw ymlaen, rwy'n gwahodd pob Awdurdod Lleol i gydweithio â'u partneriaid i gyflwyno ceisiadau inni ar gyfer cynnal prosiectau a fydd yn:

- Cefnogi datblygiad cynaliadwy trefniadau Trosolwg a Chraffu mewn llywodraeth leol a fydd yn galluogi iddynt gymryd cam ymlaen yn y broses o wella'r diwylliant o graffu;
- Cyflawni gwaith Trosolwg a Chraffu gwell o wasanaethau a materion ledled y sector cyhoeddus yn unol ag agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru, "Creu'r Cysylltiadau", a'i Datganiad Polisi 'Rhannu Cyfrifoldeb', yn arbennig mewn perthynas â Byrddau Gwasanaeth Lleol;
- Hyrwyddo ffordd o gyflawni gwaith trosolwg a chraffu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd;
- Mynd i'r afael â rhwystrau allweddol sydd ar hyn o bryd yn atal gwelliannau i'r gwaith o graffu ar wasanaethau ledled y sector cyhoeddus;
- Annog cydweithio rhwng cyrff;
- Sicrhau ymrwymiad Arweinwyr, Prif Weithredwyr a phartneriaid i wella'r gwaith Trosolwg a Chraffu;
- Darparu achos clir o ychwanegedd ar gyfer cyllid;
- Cynhyrchu manteision cynaliadwy y gellir eu hailgynhyrchu a'u cymhwyso'n ehangach ar draws Cymru;
- Annog rhannu'r gwersi a ddysgwyd ac arfer da

**Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd**

Mae trefniadau Trosolwg, Craffu ac atebolrwydd yn allweddol i sicrhau trefniadau llywodraethu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Mae hyn yn arwain at wasanaethau cyhoeddus cydgysylltiedig sy'n cael eu rhedeg yn dda ac sy'n effeithlon ac effeithiol. Er mwyn gwneud hyn, bydd rhaid i drefniadau trosolwg, craffu ac atebolrwydd ganolbwyntio ar y dinesydd a rhaid iddynt gael eu rhedeg yn dda. Yn ddi-ffael, dylent:

- Roi'r dinesydd yn flaenaf;
- Sicrhau bod pawb yn gwybod pwy sy'n gwneud beth;
- Ymgorffori gwerthoedd gwasanaethau cyhoeddus;
- Ymrwymo ag eraill;
- Meithrin modd arloesol o gyflenwi;
- Dysgu a hyrwyddo dysgu; a
- Cyflawni a sicrhau gwerth am arian

**Casgliadau**

Rwy'n ymroddedig i hyrwyddo a chefnogi'r patrwm cydweithredol o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus. Cyn i hynny weithio'n llwyddiannus, rhaid inni sicrhau bod trefniadau digonol ar gael i graffu'n effeithiol ar gyfeiriad, darpariaeth ac ansawdd y gwasanaethau hynny. Ynghyd â'r ystod o fentrau eraill mae'r Llywodraeth yn ei gynnal yn y maes hwn, bydd y Gronfa Datblygu Gwaith Craffu yn chwarae rôl bwysig newydd yn y maes hanfodol hwn.